# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

| Teitl y cynnig: | **Diwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ynglŷn â rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau** |
|---|---|

## 1. Amcanion polisi

- *Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?*

Mae'r asesiad effaith hwn yn ymwneud â diwygiadau arfaethedig i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") sy'n cael eu gwneud drwy'r Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Cyflwynodd Ddeddf 2016 fframwaith rheoleiddio cynhwysfawr ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Diwygiodd hefyd y broses o reoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol gan ddisodli'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Safonau Gofal 2000. Gwnaeth Deddf 2016 gysoni prosesau rheoleiddio gwasanaethau ag ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan bwysleisio llesiant a chanlyniadau personol unigolion. Sefydlwyd system reoleiddio sy'n seiliedig ar wasanaethau ac sy'n canolbwyntio ar welliant parhaus ac atebolrwydd darparwyr. At hynny, nod y Ddeddf oedd gwella tryloywder a chymaroldeb ar draws gwasanaethau yng Nghymru.

Mae 9 o wasanaethau rheoleiddiedig yng Nghymru:

- Gwasanaethau cartrefi gofal (oedolion a phlant)
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu
- Gwasanaethau mabwysiadu
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd
- Gwasanaethau eirioli
- Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig*

*Daeth Gwasanaethau Preswyl Ysgolion Arbennig yn wasanaeth rheoleiddiedig o dan Ddeddf 2016 ym mis Rhagfyr 2023. Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu rheoleiddio o fis Ebrill 2024 ymlaen, unwaith y bydd AGC wedi penderfynu ar eu ceisiadau i gofrestru.

Wrth i'r gwaith o sefydlu'r fframwaith rheoleiddio o dan Ddeddf 2016 fynd rhagddo, mae Llywodraeth Cymru - mewn cydweithrediad ag AGC - wedi nodi sawl maes i'w gwella er mwyn ei galluogi i weithredu yn fwy effeithiol. Mae'r newidiadau arfaethedig yn fodd i ddatrys anghysondebau, cyflawni'r bwriad polisi gwreiddiol, a chynorthwyo AGC i gyflawni

ei phrosesau a’i gweithgareddau rheoleiddio. Pan fo’r ddeddfwriaeth yn gosod gofynion ar Weinidogion Cymru, yn ymarferol, AGC sy’n cyflawni’r rhain.

Mae’r diwygiadau arfaethedig wedi’u rhannu i dri chategori:

1. Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru
2. Cyhoeddi datganiadau blynyddol
3. Canslo cofrestriad

Nodir manylion llawn y newidiadau yn yr Asesiad Effaith Integredig llawn ac yn y ddogfen ymgynghori, y gellir dod o hyd iddynt yn: https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Y cynnig sydd â’r potensial i effeithio'n fwyaf arwyddocaol ar blant yw'r un sy'n ymwneud â’r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan wasanaethau sy’n gweithredu heb gofrestru.

*Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru*

Mae’r tabl isod yn nodi nifer yr ymchwiliadau y mae AGC wedi’u cynnal rhwng 2018 a mis Mai 2023 ynghylch gwasanaethau sy’n gweithredu heb gofrestru, yn ôl math o wasanaeth.

| **Math o Wasanaeth** | **Nifer yr ymchwiliadau gan AGC rhwng 2018 a hyd yma i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru** |
|---|---|
| Gwasanaeth Lleoli Oedolion | 17 |
| Gwasanaeth Eirioli | 6 |
| Gwasanaeth Cartref Gofal - Oedolion | 88 |
| Gwasanaeth Cartref Gofal - Oedolion a Phlant | 10 |
| Gwasanaeth Cartref Gofal - Plant | 382 |
| Gwasanaethau Cymorth Cartref | 222 |
| Gwasanaeth Maethu | 5 |
| Canolfan Breswyl i Deuluoedd | 2 |
| Gwasanaeth Llety Diogel | 8 |
| **Cyfanswm** | **740** |

Mae’r tabl yn dangos, allan o 740 o ymchwiliadau i wasanaethau sy’n gweithredu heb gofrestru, fod 408 ohonynt yn ymwneud â gwasanaethau sy'n benodol ar gyfer plant sy’n derbyn gofal. Mae hyn yn cyfateb i dros 50% o’r ymchwiliadau.

O ran y nifer uchel o wasanaethau cartref gofal i blant sy’n gweithredu heb gofrestru, rydym yn sylweddoli y bydd sefyllfaoedd brys yn codi pan fydd angen i awdurdod lleol leoli plentyn mewn lleoliad heb ei gofrestru.

Adlewyrchir hyn yn Adroddiad Blynyddol y Prif Arolygydd ar gyfer 2022-23, sy’n nodi:

*Mae awdurdodau lleol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i ddiwallu anghenion plant â phrofiad o fod mewn gofal. Fodd bynnag, mae diffyg llety preswyl a llety diogel cofrestredig priodol i rai plant â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag anghenion cymhleth. O ganlyniad, mae llawer o awdurdodau lleol wedi rhoi trefniadau gofal a chymorth byrfyfyr ar waith, weithiau heb fawr ddim rhybudd, i ddiwallu anghenion rhai plant. Mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn gweithredu heb gofrestriad.*

Er bod yr achosion yn brin, adroddodd AGC ei bod wedi dod ar draws rhai darparwyr a oedd yn gweithredu heb gofrestru a wnaeth wrthod cydweithredu a pheidio â darparu gwybodaeth lawn i AGC. Yn yr achosion hynny, mae AGC wedi ceisio'r wybodaeth o ffynonellau eraill.

Felly, er bod AGC eisoes yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn ymarferol, bydd y diwygiad hwn yn adfer y sefyllfa flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000 ac yn rhoi eglurder ynghylch pwerau cyfreithiol Gweinidogion Cymru (AGC) i sefydlu a yw unigolion yn gweithredu gwasanaeth heb gofrestru. Bydd hyn yn ategu'r nod o ddiogelu plant sy'n derbyn gofal.

<u>Ymwneud â phlant a phobl ifanc</u>

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 17 Awst a 7 Tachwedd 2022 i geisio barn ar y newidiadau arfaethedig fel yr amlinellir ym Mhennod 4 o'r ddogfen ymgynghori: https://www.llyw.cymru/newidiadau-arfaethedig-ir-ddeddfwriaeth-ar-ofal-cymdeithasol-gofal-iechyd-parhaus-y-gig

Yn rhan o'r ymgynghoriad, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymwneud â sefydliadau sy'n cynrychioli'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y newidiadau cyffredinol sy'n cael eu cynnig drwy'r Bil, gan gynnwys plant. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Penaethiaid Gwasanaethau Plant
- Cyfarwyddwyr Addysg
- Comisiynydd Plant Cymru
- Plant yng Nghymru
- Voices from Care
- Y Rhwydwaith Maethu
- Gweithredu dros Blant
- Y Gymdeithas Cartrefi Plant
- Cymdeithas Darparwyr Maethu Ledled y Wlad
- TGP Cymru

Sicrhawyd bod gwybodaeth ar gael mewn fformatau hwylus megis crynodeb un dudalen, fideo egluro wedi'i animeiddio yn Gymraeg, Saesneg ac Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal â chrynodeb Hawdd ei Ddeall a ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Cafodd Llywodraeth Cymru 200 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

**Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- *Gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd gennych, pa effaith y mae eich polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau y byddwch yn eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?*

*Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru*

O ran nodi gwasanaethau a allai fod yn gweithredu heb gofrestru, mae AGC eisoes yn cyflawni'r swyddogaeth hon yn ymarferol ac nid ydynt wedi cael eu herio hyd yma. Ni fydd y diwygiad arfaethedig felly yn gwneud gwahaniaeth sylweddol yn y ffordd y mae plant yn profi'r newidiadau hyn i'r gyfraith. Fodd bynnag, heb y diwygiad, mae risg y gallai AGC wynebu her gyfreithiol a/neu efallai gael ei rhwystro rhag cyflawni ei dyletswyddau o dan Ddeddf 2016 a allai arwain at niwed i blant sy'n cael gofal gan wasanaeth sy'n gweithredu heb gofrestru. Nid ydym o'r farn bod unrhyw effeithiau negyddol ar blant yn sgil y cynigion hyn.

- Sut mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.

| **Erthyglau neu Brotocol Dewisol y Confensiwn** | **Yn gwella (X)** | **Yn Herio (X)** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 19: Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hôl. | YDY | | Bydd sicrhau bod gan AGC y pwerau cyfreithiol i ymchwilio i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru yn ategu'r nod o sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael gofal addas mewn lleoliad priodol sydd â mesurau diogelu digonol. |
| Erthygl 27: Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn. | YDY | | Bydd sicrhau bod gan AGC y pwerau cyfreithiol i ymchwilio i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru yn ategu'r nod o sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn byw mewn llety addas sy'n diwallu eu hanghenion. |

## 3. Cyngor Gweinidogol a Phenderfyniad y Gweinidog

*Nodi gwasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru*

Pan fo AGC yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan berson sy’n darparu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru, mae adran 32 o Ddeddf 2016 yn cyflwyno risg o her gyfreithiol. Pe bai AGC yn cael ei herio, mae perygl y gallai hyn rwystro ymchwiliad AGC i wasanaethau sy'n gweithredu heb gofrestru a allai beryglu plant sy’n defnyddio’r gwasanaethau hyn. Bydd cyngor i’r Gweinidogion yn parhau i argymell y dylid diwygio Deddf 2016 i roi’r pŵer i AGC ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan berson sy’n gweithredu gwasanaeth rheoleiddiedig heb gofrestru.

## 4. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

Byddwn yn rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r holl randdeiliaid – gan gynnwys grwpiau allweddol sy’n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

## 5. Monitro ac Adolygu

- *Amlinellwch pa fecanwaith monitro ac adolygu y byddwch yn ei roi ar waith i adolygu'r Asesiad hwn o’r Effaith ar Hawliau Plant.*

Wrth i waith ar Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) fynd rhagddo, bydd yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei adolygu’n rheolaidd a'i ddiweddaru yn ôl yr angen.

- *Yn dilyn yr adolygiad hwn, a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r polisi neu’r modd y’i rhoddir ar waith?*

Nid oes dim i'w nodi ar hyn o bryd.